technocamps

Inspiring | Creative | Fun
Ysbrydoledig | Creadigol | Hwyl

Awgrymiadau Defnyddiol
LEGO Bowling

Gellir defnyddio pecynnau roboteg rhaglenadwy LEGO Mindstorms NXT i greu llawer o brosiectau gwahanol. Yr NXT yw ymennydd y Mindstorm, lle caiff y rhaglenni eu llwytho i fyny a phan fyddant ar waith mae'n cyfarwyddo'r cydrannau megis y moduron a'r synwyryddion.

Gellir ysgrifennu rhaglenni gan ddefnyddio meddalwedd NXT, amgylchedd rhaglennu llusgo a gollwng sy'n galluogi defnyddwyr i adeiladu cod, cadw a llwytho i fyny yn hawdd i'r pecynnau roboteg a adeiladwyd. I weld rhagor am yr amryw fersiynau sydd ar gael i'w prynu, dilynwch y ddolen ganlynol i wefan LEGO:

www.lego.com/en-gb/mindstorms/?domainredir=mindstorms.lego.com

Nod y gweithdy yw adeiladu robot a fydd yn rasio ymlaen nes iddo adnabod COCH, wedyn bydd angen iddo deithio yn ôl i fyny'r Lôn Fowlio nes iddo adnabod y lliw gwyrdd, sef y safle cychwynnol gwreiddiol, lle y dylai stopio:

i.t.wales www.itwales.com
Swansea University Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth University
Prifysgol Bangor University
University of South Wales Prifysgol De Cymru
ESF
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

Gwahanol fathau o Flociau Rhaglennu

Blociau	Disgrifiad
Symud	Mae'r opsiynau ar y bloc hwn yn eich galluogi i: - Ddethol y pyrth i gysylltu'r moduron iddynt - Cyfeiriad a hyd y teithio - Cyfeiriad llywio - Pŵer y moduron - Moduron i roi'r brêc ymlaen neu gowstio ar ôl symud
Aros 	Mae'r opsiynau ar y bloc hwn yn eich galluogi i: - Ddethol pa fath o reolydd rydych am ei ddefnyddio - Penderfynu ar faint o amser y dylid aros mewn eiliadau
Cylch	Mae'r opsiynau ar y bloc hwn yn eich galluogi i: - Ddethol pa fath o reolydd rydych am ei ddefnyddio - Penderfynu pryd i dorri'r cylch - Dewis o'r opsiynau unigol ar gyfer pob un o'r mathau gwahanol o reolydd
Switsh 	Mae'r opsiynau ar y bloc hwn yn eich galluogi i: - Ddethol pa fath o reolydd rydych am ei ddefnyddio - Penderfynu ar ba lwybr i'w ddefnyddio - Dewis o'r opsiynau unigol ar gyfer pob un o'r mathau gwahanol o reolydd.

Peidiwch ag anghofio anfon enghreifftiau o'ch prosiectau i ni!
Efallai byddwn hyd yn oed yn eu dangos ar ein gwefan neu ein Tudalen Facebook!

technocamps

www.technocamps.com

@Technocamps

Find us on Facebook